**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 677 (Cy.65)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) 1997 ("Gorchymyn 1997") i'r graddau y mae'n effeithiol mewn perthynas â Chymru.

Mae Gorchymyn 1997 yn rhagnodi'r manylion sydd i'w cynnwys mewn -

(a) ceisiadau i dribiwnlys o dan -

(i) adrannau 19(2A) neu (2B) o Ddeddf Landlord a Thenant 1985;

(ii) adran 20C o'r Ddeddf honno;

(iii) paragraff 8 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno;

(iv) adran 22(3) o Ddeddf Landlord a Thenant 1987;

(v) adran 24(1) o'r Ddeddf honno; a

(vi) adran 24(9) o'r Ddeddf honno;

(b) ceisiadau i dribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Tribiwnlys Tiroedd.

Mae Gorchymyn 1997 yn parhau i fod yn gymwys i unrhyw gais sy'n cael ei wneud cyn 31 Mawrth 2004.

Mae Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r manylion sydd i'w cynnwys gyda cheisiadau penodedig sy'n cael eu cyflwyno i dribiwnlys prisio lesddaliadau ar neu ar ôl 31 Mawrth 2004.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 677 (W.65)

# LANDLORD AND TENANT, WALES

## The Leasehold Valuation Tribunals (Service Charges, Insurance or Appointment of Managers Applications) (Revocation and Saving) (Wales) Order 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order revokes the Leasehold Valuation Tribunals (Service Charges, Insurance or Appointment of Managers Applications) Order 1997 ("the 1997 Order") in so far as it has effect in relation to Wales.

The 1997 Order prescribes the particulars to be contained in -

(a) applications to a tribunal under -

(i) sections 19(2A) or (2B) of the Landlord and Tenant Act 1985;

(ii) section 20C of that Act;

(iii) paragraph 8 of the Schedule to that Act;

(iv) section 22(3) of the Landlord and Tenant Act 1987;

(v) section 24(1) of that Act; and

(vi) section 24(9) of that Act;

(b) applications to a tribunal for leave to appeal to the Lands Tribunal.

The 1997 Order continues to apply to any application made before the 31st March 2004.

The Leasehold Valuation Tribunals (Procedure) (Wales) Regulations 2004 make provision about the particulars to be included with specified applications made to a leasehold valuation tribunal on or after 31st March 2004.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r Gyfarwyddiaeth Dai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Ffôn 029 20 823025).

A Regulatory Appraisal has been prepared in connection with these Regulations. A copy may be obtained from the Housing Directorate, the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Tel 029 20 823025).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 677 (Cy.65)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *9 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mawrth 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 31B o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**a**) ac adran 24B o Ddeddf Landlord a Thenant 1987(**b**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 31 Mawrth 2004.

**Dirymu ac arbed**

**2**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir drwy hyn Orchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) 1997(**c**) mewn perthynas â Chymru.

(a) 1985 p.70; cafodd adran 31B ei mewnosod gan adran 83(3) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p. 15) ("Deddf 2002") o 30 Mawrth 2004 ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999"), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(b) 1987 p.31; cafodd adran 24B ei mewnosod gan adran 86(5) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 14 iddi o 30 Mawrth 2004 ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 24B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999 ac Atodlen 1 iddo. Mae diwygiadau i Orchymyn 1999 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(c) O.S. 1997/1853.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 677 (W.65)

# LANDLORD AND TENANT, WALES

## The Leasehold Valuation Tribunals (Service Charges, Insurance or Appointment of Managers Applications) (Revocation and Saving) (Wales) Order 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *9th March 2004* |
| *Coming into force* | *31st March 2004* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by section 31B of the Landlord and Tenant Act 1985(**a**) and section 24B of the Landlord and Tenant Act 1987(**b**), hereby makes the following Order:

**Name and commencement**

**1**. This Order is called the Leasehold Valuation Tribunals (Service Charges, Insurance or Appointment of Managers Applications) (Revocation and Saving) (Wales) Order 2004 and shall come into force on 31st March 2004.

**Revocation and saving**

**2**.-(1) Subject to paragraph (2), the Leasehold Valuation Tribunals (Service Charges, Insurance or Appointment of Managers Applications) Order 1997(**c**) is hereby revoked in relation to Wales.

(a) 1985 c.70; inserted by section 83(3) of the Housing Act 1996 (c. 52) and repealed by section 180 of and Schedule 14 to the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 (c. 15) ("the 2002 Act") from 30th March 2004 The functions of the Secretary of State under section 31B were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) ("the 1999 Order"), to which there are amendments not relevant to this Order.

(b) 1987 c.31; inserted by section 86(5) of the Housing Act 1996 (c. 52) and repealed by section 180 of and Schedule 14 to the 2002 Act from 30th March 2004. The functions of the Secretary of State under section 24B were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of and Schedule 1 to the 1999 Order, to which there are amendments not relevant to this Order.

(c) S.I. 1997/1853.

(2) Ni fydd effaith i'r dirymiad ym mharagraff (1) o ran unrhyw gais sy'n cael ei gyflwyno i dribiwnlys prisio lesddaliadau cyn 31 Mawrth 2004 ynglŷn â mangre yng Nghymru.

(2) The revocation in paragraph (1) shall not have effect in relation to any application made to a leasehold valuation tribunal before 31st March 2004 in respect of premises in Wales.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

9 Mawrth 2004

9th March 2004

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090892-9

9 780110 908922

**£3.00**

W27/3/04 ON